



Datganiad Grant Amddifadedd Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn 2022-23

Dyrennir y Grant Amddifadedd Disgyblion i ysgolion â disgyblion sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac y gwyddys eu bod ar hyn o bryd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (e-FSM) a disgyblion sydd wedi derbyn gofal yn barhaus am fwy na chwe mis (LAC).

Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at newidiadau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim neu sy'n LAC.

Fel ysgol rydym wedi cytuno ar y tri cham a ganlyn:

1. nodi'r grŵp targed o ddisgyblion, ei nodweddion a'i anghenion
2. cynllunio ymyrraethau sy'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau
3. monitro a gwerthuso effaith adnoddau

Yn 2022-23 rhoddwyd i **Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn** ddyraniad Grant Amddifadedd disgyblion o £31,050.

Yn Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin a'r Partneriaeth, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- cyflogi staff a all ddarparu rhaglenni ymyrraeth a chymorth a fydd yn codi safonau cyrhaeddiad y disgyblion.
- darparu rhaglenni ymyrraeth a chymorth y profwyd eu bod yn cael yr effaith fwyaf ac yn gynaliadwy - 'ELSA', rhifedd a chwarae cadarnhaol
- gweithredu Arfer Adferol o fewn yr ysgol fel modd o ddatblygu perthnasoedd ac effaith ar ymddygiad. Mae ein cynllun manwl sy'n cynnwys manylion mewn perthynas â sut rydym yn gwario'r grant ar gael yn yr ysgol.

Mae ein cynllun manwl sy'n cynnwys manylion am sut rydym yn gwario'r grant ar gael yn yr ysgol.